# Ordinhad 14

# Undeb y Myfyrwyr

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 1.1 |
| **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

# Ordinhad 14
# Undeb y Myfyrwyr

1. Adwaenir sefydliad myfyrwyr Prifysgol Bangor fel Undeb y Myfyrwyr, fel y'i diffinnir yn y Siarter, paragraff 17. Mae Undeb y Myfyrwyr yn ceisio gwella profiad y myfyrwyr drwy ddarparu cynrychiolaeth, gwasanaethau lles, cyfleusterau hamdden a chyfleoedd ar gyfer datblygiad myfyrwyr o fewn Undeb y Myfyrwyr, y Brifysgol a'r gymuned leol.

2. Bydd pob myfyriwr cofrestredig yn y Brifysgol yn gymwys i ddod yn aelodau cyffredin o Undeb y Myfyrwyr.

3. Mae'r berthynas rhwng Prifysgol Bangor ac Undeb y Myfyrwyr wedi'i nodi yn y Cyfansoddiad rhwng y ddau gorff a gymeradwywyd gan y Cyngor. Diben y Cyfansoddiad hwn yw amlinellu'n glir natur y berthynas rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr a'r rhwymedigaethau a'r cyfrifoldebau sy'n codi o hynny. Yn unol â darpariaethau'r Cyfansoddiad hwnnw, bydd gan Undeb y Myfyrwyr y grym i reoli ei faterion a'i gronfeydd ei hun. Ni fydd unrhyw newid neu ddirymiad o'r Cyfansoddiad yn ddilys oni chymeradwyir hynny gan y Cyngor.

4. Adolygir y Cyfansoddiad yn flynyddol gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Undeb y Myfyrwyr a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol.

5. Bydd aelodau Undeb y Myfyrwyr sy’n eistedd ar y Cyngor yn cynnwys Llywydd Undeb y Myfyrwyr ac un swyddog etholedig arall o Undeb y Myfyrwyr a benodir gan fwrdd gweithredol y sefydliad hwnnw ac, yn unol â pharagraff 11 o'r Siarter, am dymor cyhyd ag y parhaont yn eu swydd briodol oni chânt eu diswyddo yn unol â'r Ordinhadau. Fel arfer, y swyddog etholedig arall fydd Llywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor (UMCB).

6. Bydd aelodau’r Senedd o Undeb y Myfyrwyr yn cynnwys tri chynrychiolydd i’w penodi gan Undeb y Myfyrwyr ac yn unol ag Ordinhad 12.